Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales

**Y Pwyllgor Menter a Busnes**
**Enterprise and Business Committee**

Edwina Hart AC
Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth
Llywodraeth Cymru

17 Hydref 2012

Annwyl Edwina

**Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2013-14**

Ar ran y Pwyllgor Menter a Busnes hoffwn ddiolch i chi ac i'ch swyddogion am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Menter a Busnes ar 11 Hydref fel rhan o'n gwaith craffu ar Gynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2013-14.

Eleni, cafodd ein gwaith craffu ei gynorthwyo gan ddigwyddiad ymgysylltu y bu i ni ei gynnal ar 27 Medi pan siaradom ag amryw o sefydliadau am y blaenoriaethau yr hoffent eu gweld yng Nghyllideb Ddrafft y Llywodraeth.

Hoffai'r Pwyllgor wneud nifer o argymhellion i chi eu hystyried ac ymateb iddynt. Rydym hefyd yn anfon y llythyr hwn at Bwyllgor Cyllid y Cynulliad i lywio ei waith craffu strategol cyffredinol ar y Gyllideb Ddrafft. Bydd ein llythyr ni a'ch ymateb chi'n cael eu cyhoeddi ar ein gwefan.

Bae Caerdydd
Cardiff Bay
CF99 1NA

Clerc/Clerk: Dr Siân Phipps, Ffôn /Tel: 029 2089 8582
E-bost /Email:pwyllgor.menter@cymru.gov.uk

**Tryloywder yn y gyllideb**
Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r gwelliannau a wnaed eleni yng nghyflwyniad ac eglurder dogfennau cyllideb Llywodraeth Cymru ac yn y papurau y mae Gweinidogion wedi eu cyflwyno i bwyllgorau'r Cynulliad. Er enghraifft, rydym ni'n croesawu'r ffaith y defnyddioch chi'r ffigurau llinell sylfaen sydd yng Nghyllideb Atodol 2012-13 (Mehefin 2012).

Pan wnaethom ein gwaith craffu ar y gyllideb y llynedd bu i ni fynegi pryderon ynghylch y diffyg unioni rhwng cynlluniau gwariant eich portffolio ac ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu. Felly, rydym yn falch o weld ers hynny fod eich cynlluniau gwariant ar gyfer yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth wedi eu hadolygu a'u haddasu i sicrhau bod cyllidebau yn 2013-14 a 2014-15 wedi eu hunioni i gyflawni blaenoriaethau'r Rhaglen Lywodraethu.

Mae'r ddau ddatblygiad hyn wedi ein cynorthwyo'n fawr yn ein gwaith o graffu ar eich cynigion ar gyfer y gyllideb. Fodd bynnag, mae bob amser lle i wella.

1. **Flwyddyn nesaf, hoffwn i chi roi rhagor o wybodaeth i ni am yr allbynnau, y canlyniadau a'r targedau ynghlwm wrth ddyraniadau eich cyllideb. Lle bynnag mae hynny'n bosibl, hoffwn i chi ddiffinio'r allbynnau a'r canlyniadau mesuradwy yr ydych chi'n disgwyl i faes penodol o wariant ei gyflawni, er mwyn i ni allu gwneud ein gwaith wrth werthuso effeithiolrwydd gweithgareddau eich Adran.**

**Atebolrwydd**
Rydym o'r farn bod eich Adran yn gwneud cynnydd da o ran monitro'r cyllid a'r gwariant yn erbyn yr allbynnau yn rheolaidd, ac roeddem yn falch o glywed eich bod wedi unioni allbynnau eich Adran gyda'i chyllid. Mae gennym ddiddordeb penodol yn yr adolygiad "at wraidd y mater" chwarterol sydd ar waith ar holl brosiectau a mentrau eich Adran.

2. **Ar sail canfyddiadau eich adolygiadau "at wraidd y mater" chwarterol, byddwn yn croesawu adroddiad chwarterol sy'n cynnwys dadansoddiad manwl o'r allbynnau a gyflawnwyd yn erbyn gwariant cyllideb eich Adran. Dylai hyn gynnwys dadansoddiad o'r gost fesul darn o waith sy'n gysylltiedig â phrosiect neu raglenni penodol, yn ôl yr hyn sy'n briodol.**

Byddai'r Pwyllgor hwn hefyd yn dymuno gwneud gwaith craffu yn dilyn y gwariant ac ar atebolrwydd y gyllideb yn ychwanegol at ein gwaith craffu blynyddol ar gynigion ar gyfer y gyllideb.

3. **Rydym yn estyn gwahoddiad i chi ddod gerbron y Pwyllgor yn ystod y 12 mis nesaf er mwyn i ni allu gwneud gwaith craffu ar sut y cyflawnodd eich cyllideb, a'ch gwariant yn sgil hynny, fewnbynnau, allbynnau, canlyniadau a gwerth am arian.**

**Yr hyn sy'n fforddiadwy**

Yn ystod ein sesiwn graffu ar 11 Hydref trafodom sut mae'r amgylchiadau economaidd presennol ar lefel y DU yn rhoi Llywodraeth Cymru o dan bwysau, a'r modd y gallai cyfnodau o adolygu gwariant yn y dyfodol gwtogi'r dyraniad i Gymru ymhellach.

Dywedoch wrthym y llynedd y gallech gael llawer o arian ar gyfer datblygu Ardaloedd Menter yng Nghymru. Rydym yn ymwybodol, ar sail eich sylwadau ar 11 Hydref, bod y trafodaethau hynny yn dal i barhau a bod materion ynghylch blaenoriaethu a sensitifrwydd masnachol o hyd i'w datrys, ond hoffem eglurder ar y cyllid a'r canlyniadau.

4. **Rydym yn edrych ymlaen i chi gyhoeddi'r ymyriadau penodol a fydd yn cael eu defnyddio ym mhob un o'r Ardaloedd Menter, yr hyn y bwriadir ar eu cyfer o ran allbynnau a chanlyniadau a faint o adnoddau y bydd eich Adran ac eraill yn clustnodi i'w rhoi ar waith. Yn ogystal, hoffem i chi egluro pa ffynonellau cyllid eraill y gellir eu defnyddio a sut felly.**

Yn yr un modd, mae meysydd polisi eraill sy'n dal i ddatblygu y mae eu goblygiadau o ran cyllideb yn parhau'n aneglur. Er enghraifft, yn ystod y sesiwn graffu, eglurodd eich swyddogion nad yw cyllid Llywodraeth y DU o £57 miliwn ar gyfer ehangu band eang cyflym ledled Cymru i'w weld yn eich cyllideb.

5. **Hoffem i chi egluro, mor fuan â phosibl, yr hyn a ddyranwyd yn eich cyllideb ar gyfer mentrau sydd ar waith, fel Dinas-ranbarthau, Ardaloedd Twf Lleol Powys, diwygiadau i Ardrethi Busnes a Band Eang y Genhedlaeth Nesaf i Gymru, ynghyd ag eglurhad o'r allbynnau a'r canlyniadau a ddymunir yn sgil y gwariant hwnnw.**

6. **Hoffem wybodaeth, pan fydd ar gael, am y gyfran o'r gyllideb Digwyddiadau Mawr a bennwyd ar gyfer y gwaith gyda Chyngor Caerdydd i ystyried dichonoldeb gwneud cais i gynnal Gemau'r Gymanwlad yn 2026. Ar yr un pryd, a allwch egluro beth yw amcanion strategol cynnal y Gemau? Yn ogystal, hoffem restr o'r prosiectau penodol sy'n cael eu cyllido gan y gyllideb Digwyddiadau Mawr.**

**Blaenoriaethu**

Yn eich papur, nodoch mai eich blaenoriaeth yw darparu twf a swyddi, a'r agenda Gwyddoniaeth yn benodol. Cyfeirioch hefyd at fonitro prosiectau yn barhaus i sicrhau eu bod yn darparu'r canlyniadau a gynlluniwyd. Lle nad yw prosiectau yn cyflawni fel y cynlluniwyd iddynt wneud, dywedoch fod adnoddau yn cael eu symud i ymyriadau a fydd yn darparu swyddi a thwf.

7. **Yn rhan o Adroddiad Blynyddol y Rhaglen Lywodraethu, mewn achosion lle mae symiau sylweddol o arian yn y cwestiwn, hoffem i chi gyhoeddi'r rhesymeg dros dynnu adnoddau oddi wrth brosiectau sy'n tangyflawni a'i rhoi i ymyriadau eraill.**

8. **Gan fod swyddi wedi eu nodi yn ddangosydd perfformiad allweddol, hoffem i chi gyflwyno adroddiad hefyd ar yr allbynnau swyddi a gyflawnwyd gan eich Adran, fel rhan o Adroddiad Blynyddol y Rhaglen Lywodraethu.**

**Gwerth am Arian**

Rydym ni'n croesawu Atodiad B eich papur yn fawr, sy'n cynnwys gwybodaeth am bob un o'ch dyraniadau yn eich naw sector allweddol. Dyma'r tro cyntaf i ni gael y lefel hon o fanylion yn ymwneud â'ch polisi sector allweddol. Rydym ni'n nodi mai dim ond chwech o'r naw panel sector sydd wedi cyhoeddi dogfennau yn amlinellu blaenoriaethau strategol eu sector, ac nad yw'r cynlluniau hyn, ar hyn o bryd, yn bolisi Llywodraeth Cymru.

Sonioch y byddech yn barod i ddarparu nodyn arall ar gyfeiriad yr holl sectorau yn y dyfodol. Er mwyn i ni allu gwneud gwaith craffu ar werth am arian yn y meysydd polisi hyn mae'n hanfodol i ni wybod pa ganlyniadau rydych chi'n eu disgwyl yn sgil y gwariant arfaethedig.

9. **Hoffem i chi gyhoeddi cynlluniau tair blynedd terfynol, wedi eu cytuno, ar gyfer pob un o'r naw o sectorau allweddol sy'n cynnwys**

**gwybodaeth am yr allbynnau, canlyniadau a thargedau rydych chi'n disgwyl y cânt eu cyflawni a sut mae disgwyl iddynt gyfrannu at dwf economaidd, er mwyn i ni allu gwerthuso a ydych chi'n cyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd gennych.**

Y llynedd, bu i ni fynegi peth pryder ynghylch y diffyg cynnydd a wnaed o ran gosod targedau perfformiad ar gyfer gweithgareddau eich Adran.

**10. Fel rhan o Adroddiad Blynyddol y Rhaglen Lywodraethu hoffem i chi gyhoeddi eich dadansoddiad o gyfraniad uniongyrchol eich Adran i dwf economaidd.**

**Prosesau'r gyllideb**

Gan symud ymlaen, hoffem eich gweld chi'n parhau i fod yn hyblyg â chyllideb eich Adran er mwyn i'ch swyddogion allu bod yn fentrus wrth ddatblygu a chefnogi mentrau gyda'r sector preifat. Rydym yn sylweddoli y bydd y dull hwn o weithio yn gofyn i swyddogion fentro'n ofalus ymhellach wrth eu gwaith.

Diolch am gynorthwyo â gwaith y Pwyllgor, ac rydym yn edrych ymlaen at gael eich ymateb i'r pwyntiau a godwyd yn y llythyr hwn mor fuan â phosibl.

Yn gywir



Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes

c.c. Jocelyn Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid